


GOWER, Syr ERASMUS (1742 - 1814), llyngesydd



Enw: Erasmus Gower
Dyddiad geni: 1742
Dyddiad marw: 1814
Rhiant: Abel Gower
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: llyngesydd
Maes gweithgaredd: Milwrol
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Glandovan ('Glan Duan,' yn ôl *West Wales Records*, ii, 39), Cilgeran, ac aeth i'r môr yn fore, gyda'r capten John Donkley a oedd yn briod â chwaer ei dad. Wedi brwr peth amser ar wahanol longau, anfonwyd ef ddwywaith ar fordeithiau ymchwil o gwmpas y byd, ac yn 1769 (bellach yn swyddog) i Ynysoedd Falkland (collwyd ei long cyn cyrraedd y lan). Bu gartref o 1770 hyd 1779; yna, bu'n gapten dan Rodney, ac o 1786 hyd 1788 ar arfordir Newfoundland. Urddwyd ef yn farchog yn 1792, a chafodd gludo'r llysgennad Prydeinig (Macartney) i China. Bu'n brwydro wedyn (yn enwedig dan Cornwallis yn 1795), a dyrchafwyd ef (1799) yn is-lyngesydd ac yn 1804 yn ddirprwy-lyngesydd; ar ôl brwr tymor (1804-7) yn rhaglaw yn Newfoundland, ymddeolodd, a dyrchafwyd ef yn 1809 yn llyngesydd. Bu farw yn Hambledon (Portsmouth) 21 Mehefin 1814, 'yn ei eilfed flyydd ar bymtheg a thrigain.' Mab oedd Erasmus Gower i Abel Gower, a'i fam yn ferch i **Erasmus Lewes**, ficer Llanbedr-pont-Steffan ac un o Lewesiaid y Gernos yn Llangunllo, Ceredigion (**Meyrick**, *Cardiganshire*, 2il arg., 202, 221). Teulu o Worcestershire oedd y Goweriaid yn wreiddiol, ond ymbriodasant (tua 1700) â'r Stedmaniaid, perchenogion Glandovan, a oedd hwythau wedi dyfod i'r lle drwy ymbriodi â'i berchenogion gwreiddiol, y Fychaniaid. Disgynyddion oedd y rheini o Robert Vaughan, cainc o deulu enwocach **Fychaniaid** Cors-y-gedol ym Meirion; yr oedd gwraig y Robert Vaughan hwn, Elisabeth, yn ferch i'r cyfieithydd **Thomas Phaer**. Ymhen amser ar ôl marw'r llyngesydd, symudodd y Goweriaid o Glandovan i Glunderwen.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

John Roland Phillips, *The history of Cilgerran* (1867), 104-22
Oxford Dictionary of National Biography

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 74128654

Wikidata: Q74563

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Jenkins, R. T., (1953). GOWER, Syr ERASMUS (1742 - 1814), llyngesydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-GOWE-ERA-1742>

Clippwr

Preifatrwydd a Chwcis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiwedd
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government